Ysgoloriaeth Cymhelliant

Amodau a Thelerau

2018/2019

Cyflwyniad

Mae'r amodau a thelerau sydd yn y ddogfen hon yn derfynol ar gyfer pob Ysgoloriaeth Cymhelliant fydd yn cael ei rhoi yn y flwyddyn academaidd 2018/19

Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yr hawl i newid yr amodau a thelerau yn y dyfodol a gwneud penderfyniadau polisi ychwanegol ar unrhyw fater sydd y tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei gynnwys yma

Mae gwerth yr Ysgoloriaethau Cymhelliant wedi eu nodi isod, ond mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cadw'r hawl i amrywio gwerth yr ysgoloriaethau.

Rheolau Cyffredinol yr Ysgoloriaeth Cymhelliant

Mae croeso i unigolion sydd wedi cyrraedd 17 oed ac sy'n gwneud cais i astudio mewn prifysgol yng Nghymru yn 2018/19 wneud cais am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg

Bydd nifer cyfyngedig o ysgoloriaethau ar gael drwy ganghennau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer cyrsiau cymwys ar ddechrau'r flwyddyn academaidd

Rhaid i bob myfyriwr sy'n derbyn yr Ysgoloriaeth Cymhelliant astudio o leiaf 40 credyd (33%) o bwnc yr ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Hyd yr Ysgoloriaeth Cymhelliant fel arfer yw tair blynedd. Os yw myfyriwr yn astudio cwrs gradd pedair neu bum mlynedd, bydd yr Ysgoloriaeth Cymhelliant ar gael am dair o'r blynyddoedd hynny

Mae pob Ysgoloriaeth Cymhelliant sy'n cael ei rhoi yn ddibynnol ar dderbyn cadarnhad bod myfyriwr yn astudio cwrs gradd amser llawn neu ran amser. Bydd y Coleg Cymraeg yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd yn gweithio, ac yn gwneud cais am gwrs rhan amser.

Bydd yr Ysgoloriaeth Cymhelliant yn cael ei rhoi i astudio cwrs gradd benodol mewn prifysgol benodol. Mae myfyriwr sy'n derbyn yr Ysgoloriaeth Cymhelliant yn gallu gwneud cais i drosglwyddo ysgoloriaeth. Os yw'r ddwy brifysgol berthnasol yn cytuno, bydd y Coleg Cymraeg yn caniatáu i fyfyriwr drosglwyddo'r ysgoloriaeth o un brifysgol i'r llall

Mae gan y Coleg Cymraeg yr hawl i wrthod cais am ysgoloriaeth neu ddod ag ysgoloriaeth i ben.

Chwilotydd Cyrsiau

Rhaid defnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg Cymraeg i wneud yn siŵr bod y cwrs yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant (Arwydd £).

Mae rhai cyrsiau yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant a Phrif Ysgoloriaeth y Coleg. Mewn achos o'r fath gwnewch gais ar gyfer y Brif Ysgoloriaeth yn unig

Ond wedi 15 Ionawr 2018, (dyddiad cau y Brif Ysgoloriaeth) os fyddwch yn gwneud cais am gwrs sy'n gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant a'r Brif Ysgoloriaeth byddwn ond yn ystyried eich cais ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant yn unig.

Ysgoloriaeth Cymhelliant

Mae pob Ysgoloriaeth Cymhelliant yn £500 y flwyddyn (£1,500 dros 3 blynedd)

Bydd rhaid i bob myfyriwr sy'n derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg astudio **o leiaf 40 credyd (33%) o bwnc yr ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn**

Os bydd y Coleg wedi derbyn digon o geisiadau cymwys, bydd y Coleg yn rhoi o leiaf 150 o Ysgoloriaethau Cymhelliant

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wneud y canlynol:

- Defnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg i wneud yn siŵr bod y cwrs yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant
- Ymaelodi fel darpar fyfyriwr ar wefan y Coleg
- Darllen dogfen Amodau a Thelerau Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg
- Cwblhau'r ffurflen gais yn Gymraeg

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wneud y canlynol:

- Astudio o leiaf 40 credyd (33%) o bwnc yr ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn
- Sefyll arholiad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg yn ystod ei gyfnod yn y brifysgol
- Cwblhau profiad gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Coleg yn cynorthwyo'r myfyriwr i drefnu lleoliad addas os nad yw'r brifysgol yn cynnig profiad gwaith fel rhan o'r cwrs gradd

Pynciau Ysgoloriaeth Cymhelliant

Mae Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg ar gyfer rhai meysydd penodol y mae modd eu hastudio o leiaf 33% drwy'r Gymraeg

Rhaid defnyddio Chwilotydd Cyrsiau'r Coleg Cymraeg i wneud yn siŵr bod y cwrs yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant (Arwydd £ Ysgoloriaeth Cymhelliant ar y Chwilotydd Cyrsiau).

Ysgoloriaethau Eraill

Ni fydd myfyrwyr yn cael derbyn mwy nag un ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg ar yr un pryd

Bydd hawl gan fyfyriwr wneud cais am ysgoloriaethau y mae prifysgolion yn cynnig hefyd, ond y prifysgolion fydd yn penderfynu a fydd myfyriwr yn cael derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg yn ogystal ag ysgoloriaeth gan y brifysgol. Ym mhob achos, rhaid i'r myfyriwr gysylltu â'r brifysgol berthnasol gydag unrhyw gwestiynau.

Proses Ddyfarnu'r Ysgoloriaeth Cymhelliant

Bydd pob prifysgol yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod modd astudio o leiaf 33% o bob cwrs sy'n gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant drwy gyfrwng y Gymraeg

Os nad yw prifysgol yn gallu cynnig nifer penodol o gredydau i fyfyriwr astudio drwy'r Gymraeg, ni fydd y Coleg yn cymryd cyfrifoldeb dros hyn. Mewn sefyllfa o'r fath, rhaid i'r brifysgol gysylltu gyda'r Coleg yn syth i ddweud nad ydynt yn gallu cynnig y credydau sydd angen drwy'r Gymraeg. Rhaid i'r brifysgol wedyn gysylltu gyda'r myfyriwr i esbonio'r sefyllfa

Nod y Coleg yw rhoi Ysgoloriaeth Cymhelliant i bob myfyriwr sy'n ateb gofynion y ffurflen gais. Ond os yw nifer y ceisiadau yn cynyddu yn sylweddol mae'n bosib y bydd rhaid i'r Coleg rannu nifer yr ysgoloriaethau yn ôl pwnc, neu leihau gwerth yr Ysgoloriaethau Cymhelliant.

Proses Dalu Ysgoloriaeth Cymhelliant

Bydd y Coleg yn cysylltu gyda'r prifysgolion i wneud yn siŵr fod y myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd (33%) o bwnc yr ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Ar ôl derbyn cadarnhad gan y brifysgol bod y myfyriwr yn astudio o leiaf 40 credyd (33%) o bwnc yr ysgoloriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Coleg yn trefnu talu'r Ysgoloriaeth Cymhelliant yn uniongyrchol

Bydd yr arian fel arfer yn cyrraedd cyfrif banc y myfyriwr ddiwedd mis Mawrth.

Gwneud cais

Rhaid gwneud cais am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg erbyn **8 Mai 2018**

Mae pecyn ymgeisio llawn ar wefan y Coleg Cymraeg

Os ydych yn anfon eich cais ar e-bost at y Coleg, bydd angen i chi lofnodi'r ffurflen gais yn electronig

Os ydych yn anfon eich cais drwy'r post at y Coleg, bydd angen i chi argraffu'r ffurflen gais er mwyn ei llofnodi

Yn y ddau achos, cofiwch roi X yn y blwch i gadarnhau eich bod yn cytuno â'r amodau a thelerau

E-bostiwch eich ffurflen gais at gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk neu yn y post at Swyddfa Ganolog, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch gyda'r Coleg Cymraeg trwy ffonio 01267 610400

Ni fydd ffurflenni cais sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael eu derbyn

Bydd y Coleg yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus erbyn **31 Mai 2018** cyn cyhoeddi rhestr o'r enwau ar wefan y Coleg ac yn y wasg.